**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD 13 MAI 2024**
19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

## 1. Presennol

Glyn Griffiths, Siân Cwper, June Jones

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Ymddiheuriadau

Elin Jones, Bethan Gritten, Cenwyn ap Tomos

## 3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 4 Mawrth 2024.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 4 Mawrth 2024, ond fod angen nodi fod y Cynghorydd Siân Cwper yn bresennol yn y cyfarfod efo'r trigolyn lleol er mwyn trafod goryrru drwy Lanfrothen.

## 5. Materion yn codi o'r Cofnodion

### 5.1 Cais Cynllunio Garreg Frech

Tynnodd Adra eu cais yn ôl oherwydd eu bod am ganolbwyntio ar safleoedd eraill yn gyntaf, a bod angen adroddiadau a gwaith dylunio pellach. Mae'n bosibl y byddant yn gwneud cais newydd yn y dyfodol.

### 5.2 Y Ganolfan

Cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd a fyddent yn fodlon ail-leoli'r giât haearn werdd sy'n rhoi mynedfa ar y cyd i Ysgol y Garreg a'r Ganolfan. Byddai hynny wedyn yn golygu na fyddai angen cloi'r giât ac felly rhwystro mynediad i'r Ganolfan pan fo plant yn chwarae yn iard yr ysgol.

### 5.3 Goryrru Llanfrothen a gosod cyflymder 20 m.y.a.

Parheir i ddisgwyl i Gyngor Gwynedd osod llinellau gwyn i arafu traffig yn Llanfrothen. Yr eglurhad am yr oedi yw am eu bod yn disgwyl cael dyddiad gan y contractwr sydd i wneud y gwaith.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn a fyddai'n bosibl lleihau'r cyflymder yn raddol ar yr A4085 i mewn i Lanfrothen o

Benrhyndeudraeth, fel nad yw'r cyflymder yn disgyn yn sydyn o 60 i 20 wrth ddod i mewn i'r pentref.

### 5.4 Mynwent Tan Lan

Cafwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd nad oedd y gwair wedi ei dorri. Mae'n debyg nad oedd y gwair wedi ei dorri cyn gynted ag sy'n arferol yn ystod y flwyddyn, oherwydd tywydd gwlyb, ac i'r toriad cyntaf am y flwyddyn fod ar 10 Mai 2024.

Cytunwyd i ysgrifennu at yr achwynydd i egluro fod 6 toriad yn cael ei wneud yn y fynwent bob blwyddyn, sef tua'r un faint â mynwentydd eraill.

Cytunodd y Cynghorydd Nia Povey i weld os byddai'n bosibl i wair, wedi iddo gael ei dorri gael ei chwythu fel nad yw'n glynu ar y cerrig beddi, ond cydnabuwyd y gallai hyn fod yn anodd, yn enwedig os ydy'r gwair ychydig yn wlyb.

Mae angen hefyd sicrhau fod y gwair o flaen y beddi newydd wedi ei dorri, fel bod lle i bobl sefyll yno.

Gan nad oedd y ffioedd claddu heb eu hadolygu ers Mehefin 2020, , cytunwyd i'w codi fel ag y nodir yn y tabl isod.

| **Bedd dwfn i hyd at 3** | **Ffi hyd at 31/5/2024** | | **Ffi o 1/6/2024** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Plwyfolion** | **Eraill** | **Plwyfolion** | **Eraill** |
| **1** | **£1250** | **£1800** | **£1450** | **£2200** |
| **2** | **£1230** | **£1600** | **£1450** | **£2200** |
| **3** | **£1230** | **£1600** | **£1450** | **£2200** |
| **Bedd dwfn i hyd at 2** | | | | |
| **1** | **£1190** | **£1800** | **£1450** | **£2200** |
| **2** | **£1180** | **£1600** | **£1450** | **£2200** |
| **Claddu llwch mewn bedd sy'n bodoli eisoes** | **£125** | **£125** | **£200** | **£300** |

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Sian Cwper

### 5.5 Prosiect coed ywen

Cyfarfu Nia Povey efo Elin Smith, cynrychiolydd Parc Cenedlaethol Eryri ym mynwent Tan Lan, er mwyn trafod plannu coed yw yno.

Cytunwyd y byddai dwy goeden yn ddigonol.

Mae'n bosibl fod grant ar gael er mwyn plannu gwrych ar hyd y clawdd ar ochr uchaf y fynwent, ond cytunwyd i beidio mynd ymlaen efo hyn gan y byddai yna gostau cynnal a chadw yn y tymor hir.

**5.6 13 Garreg Frech**

Ni chafwyd unrhyw ymateb gan adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd, er gwaethaf eu hatgoffa i ymateb erbyn cyfarfod 13 Mai.

Fe gytunodd y Cynhgorydd June Jones i geisio darganfod pa gymdeithas dai sydd berchen y tŷ drws nesaf i 13 Garreg Frech, fel y gallasid cysylltu â nhw er mwyn mynegi pryder fod dirywiad yn strwythur adeiladwaith13 Garreg Frech yn cael effaith negyddol ar yr eiddo drws nesaf hefyd.

**5.7 Cysgodfan Fysiau Llanfrothen**

Disgwylir i Gyngor Gwynedd ddanfon telerau ar gyfer defnydd y darn tir fel cysgodfan gan y cyngor cymuned.

Mae'r pensaer wrthi'n cwblhau'r cais cynllunio.

**5.8 Diffribliwyr**

Gosodwyd y ddau ddifribliwr newydd yn Rhyd ac yn Siop a Chaffi Llanfrothen

Codwyd tua £120 yn electronig hyd yn hyn drwy'r cod QR a osodwyd ym maes parcio Croesor, a swm ariannol yn y blwch o dros £90 .

**5.9 Llwybr Llanfrothen i Benrhyndeudraeth**

Parheir i ddisgwyl ymateb gan Gyngor Gwynedd o ran costau cynllun llai uchelgeisiol, ac oes oedd asesiad dichonoldeb wedi ei wneud pan gostiwyd y cynllun yn wreiddiol.

Mae'r Cynghorydd Nia Povey wedi siarad efo peiriannydd sifil sydd yn byw yn lleol, ac fe gytunwyd mai'r cam cyntaf fyddai cerdded y llwybr llai uchelgeisiol er mwyn ceisio dod i farn ar beth sy'n bosibl.

**6. Materion Ariannol**

**6.1** Cyflog Clerc Mawrth 2024 £239.72

TWE £59.80

**6.2** Cyflog Clerc Ebrill 2024 £239.72

TWE £59.80

**6.3** Costau cyfrif HSBC hyd at 5Mawrth 2024 - £8.00

**6.4** Costau cyfrif HSBC hyd at 5 Ebrill 2024 - £8.00

**6.5** Adnewyddu Polisi Yswiriant BHIB1 Mehefin 2024 - £1252.64

**6.6** yu energy 11 Mawrth 2024 - £17.56

**6.7** yu energy 10 Ebrill 2024 - £18.63

**6.8** yu energy 8 Mai 2024 - £17.88

**6.9** Dunn & Ellis, Anfoneb 155904, 24/04/2024, £61.20

**6.10** Aelodaeth Un Llais Cymru 2024/25 - £99.00

**6.11** Defib Store Anfoneb 34685 18 Mawrth 2024, darparu un diffribliwr a ches ar gyfer Croeso

**6.12** Defib Store Anfoneb 37951 3 Ebrill 2024, darparu 2 ddifribliwr a dau ges - £3062.88

**6.13** Ad-dalu Bethan Gritten bocs rhoddion Croesor Goldendrop Ltd £44.99

**6.14** Ad-dalu Bethan Gritten clo ar gyfer bocs rhoddion Croesor, £13.50

**6.15** Argraffdy Eryri arwydd bocs rhoddion Croesor Anfoneb 23/04/24 £64.80

**6.16** Derbyn taliad cyntaf praesept Cyngor Gwynedd i'r banc 1 Mai 2024 - £5,650.00

**6.17** Derbyn taliad SumUp i'r banc 23 Ebrill 2024 - £11.00

**6.18** Derbyn taliad SumUp i'r banc 29 Ebrill 2024 - £7.00

**6.19** Derbyn taliad SumUp i'r banc 2 Mai 2024 - £5.00

**6.20** Derbyn taliad SumUp i'r banc 3 Mai 2024 - £10.00

**6.21** Derbyn taliad SumUp i'r banc 7 Mai 2024 - £35.00

**6.22** Balans yn y prif gyfrif 7 Mai 2024 £16,276.31

**6.23** Balans yn y cyfrif cadw 7 Mai 2023 £22,448.41

**7. Gohebiaeth**

- Ymgynghoriad Parc Cenedlaethol Eryri ar Erthygl 4
- Cyngor Tref Nefyn, cais am gefnogaeth

Roedd cefnogaeth i ymgynghoriad Parc Cenedlaethol Eryri i gyflwyno Erthygl 4 fyddai’n golygu y byddai’n rhaid gofyn am ganiatâd cynllunio er mwyn troi cartrefi yn llety gwyliau neu yn ail dŷ. Cytunwyd i ymateb i’r ymgynghoriad gan nodi cefnogaeth.

Gofynnodd Cyngor Tref Nefyn am gefnogaeth i’w cais i gynghorau cymuned i gysylltu â Chyngor Gwynedd er mwyn mynegi anfodlonrwydd am eu bwriad i bwrcasu fflyd o gerbydau trydan newydd.

Y farn oedd bod penderfyniad Cyngor Gwynedd yn un call a rhesymol, ac yn cyd-fynd â’u polisi i leihau allyriadau carbon. Felly penderfynwyd peidio cefnogi’r cais.

**8. Cynllunio**

Dim

**9.1 Adroddiad Blynyddol 2023/24**

Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol efo mân newidiadau, oedd yn cynnwys newid cyfeiriad lleoliad y gysgodfan fws arfaethedig.

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Siân Cwper

**9.2 Cais Gorchymyn Diwygio Map Swyddogol - Tir ger Carreg Frech**

Cafwyd llythyr ymgynghori gan Gyngor Gwynedd, yn dilyn cais a wnaed gan y cyhoedd yn gofyn i lwybr sydd yn rhedeg i gyfeiriad y gogledd o’r ffordd gyhoeddus ger 19 Garreg Frech i lwybr cyhoeddus ym mhen draw’r cae uwchben, gael ei gofrestru ar y Map Datganiad Swyddogol.

Rhoddwyd cefnogaeth i’r cais, ac fe gytunwyd fod y cyngor cymuned yn ymateb drwy ddweud fod y llwybr wedi ac yn cael ei ddefnyddio gan rai o aelodau cyngor cymuned Llanfrothen, ac aelodau’r gymuned ers degawdau lawer. Mae’r defnydd hynny’n ddyddiol, ac ers blynyddoedd maith.

| Dyddiad y cyfarfod nesaf – 24 Gorffennaf 2024 am 7 yr hwyr |
|---|